

Cymraeg mewn
Ymarfer Proffesiynol 2
2024-25



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales


www.athrofa.cymru

Darlith 11 : Taclo'r treigladau



hedydd.jones@uwtsd.ac.uk

Allwedd:




Drilio




Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)




Tasg
wrando




Gwaith
pâr



Grŵp o
dri



Gwaith
grŵp




Amser
canu



Gwaith ar
y byrddau




Tasg
ysgrifennu



Tasg
ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth
i'r
Deddf

Y treigladau: beth ydyn nhw?

Treigladau ydy pan fydd llythyren gyntaf gair yn newid. Gan amlaf, dim ond y llythyren gyntaf fydd yn newid. Y Gymraeg ydy'r unig iaith yn y byd sy'n defnyddio'r treigladau fel rhan o'i gramadeg. Gan amlaf, y gair yn union o flaen y gair fydd yn achosi'r treigladau.

Mae 3 math gwahanol o dreigladau – meddal, trwynol a llaes.

Dydy'r treigladau ddim yn effeithio ar bob llythyren yn yr wyddor...

- Treigladau **meddal** – 9 llythyren
- Treigladau **trwynol** – 6 llythyren
- Treigladau **llaes** – 3 llythyren

Y tabl treiglo

Llythyren cyn treiglo	Treigladd meddal	Treigladd trwynol	Treigladd blaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	-	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		



Y treigladd meddal

p	t	c	b	d	g	ll	m	rh
								
b	d	g	f	dd	-	l	f	r

Cofiwch!

Gan amlaf....y gair yn union o flaen y gair sy'n achosi'r treigladau.

Meddylwch ...
Beth ydy 'swydd' y gair yn y frawddeg?



Dyma'r cliw ond beth ydy'r rheol?

Cliw 1...

'ei **g**ot e' OND 'ei **ch**ot hi'
'ei **l**yfr e' OND 'ei llyfr hi'

Cliw 2...

Dwy **f**erch a dau **f**achgen
Dwy **g**adair a dau **f**wrdd

Cliw 3...

'yn **dd**a' OND 'yn rhedeg'
'yn **dd**iddorol' OND 'yn darllen'

Cofiwch!

Gan amlaf....y gair yn union o flaen y gair sy'n achosi'r treigladau.

Meddylwch ...
Beth ydy 'swydd' y gair yn y frawddeg?



Dyma'r cliw ond beth ydy'r rheol?

Cliw 4 ...

am **dd**eg o'r gloch.
i **w**eld.
wrth **f**ynd.

Cliw 5 ...

Dy **f**ag a dy **g**ot di
Dy **w**ers a dy
ddosbarth di

Cliw 6 ...

Bore da, **E**lwyddyn 9.
Gwrandewch yn astud
ferched!

Atebion i'r cliwiau



Cliw:	Rheol:
Cliw 1... 'ei <u>g</u> ot e' OND 'ei <u>ch</u> ot hi' 'ei <u>l</u> yfr e' OND 'ei llyfr hi'	Bydd treigladd meddal ar ôl y rhagenw 'ei' gwrywaidd.
Cliw 2... Dwy <u>f</u> erch a dau <u>f</u> achgen Dwy <u>g</u> adair a dau <u>f</u> wrdd	Bydd enwau yn treiglo'n feddal ar ôl 'dau' a 'dwy'.
Cliw 3... 'yn <u>dd</u> a' OND 'yn rhedeg' 'yn <u>dd</u> iddorol' OND 'yn darllen'	Bydd ansoddeiriau (nid berfenwau) yn treiglo'n feddal ar ôl 'yn'.

Atebion i'r cliwiau



Cliw:	Rheol:
Cliw 4 ... am dd eg o'r gloch i w eld wrth f ynd	Bydd treigladd meddal ar ôl yr arddodiaid.
Cliw 5 ... Dy f ag a dy g ot di Dy w ers a dy dd osbarth di	Bydd treigladd meddal ar ôl y rhagenw 'dy' ... dy b ensil dy w raig
Cliw 6 ... Bore da, F lwyddyn 9. Gwrandewch yn astud f erched!	Rhaid treiglo'n feddal wrth gyfarch ... Bore da, b lant

'Ei' gwrywaidd a 'dy'



Bydd **'ei'** – sy'n golygu (*his*), a **'dy'** (*your*) yn achosi **treigladau** meddal bob tro!

Cyfieithwch y brawddegau hyn:

1. Jac has lost his book.
2. Turn your laptop off and put it in your bag.
3. Where are your colouring pencils?
4. Why haven't you done your homework?
5. Sion has forgotten his coat and his pencil case today.

Dau a dwy



Dylai'r clychau ganu bob tro gyda'r ddau rif yma! Mae'r ddau rif yn achosi treigladd meddal. **Cofiwch, mae rhaid i ni wybod pa un i'w ddefnyddio hefyd!** Mae pob enw unigol yn Gymraeg naill ai'n **wrywaidd** neu'n **fenywaidd**. Bydd y geiriadur yn gallu dweud wrthon ni beth ydy cenedl y gair – eg/nm (enw gwrywaidd), eb/nf (enw benywaidd). Rydyn ni'n defnyddio **dwy** gydag **enwau benywaidd** a **dau** gydag **enwau gwrywaidd**: e.e. dau **f**achgen dwy **f**erch
Rhowch '**dau**' neu '**dwy**' o flaen yr enwau hyn..

- | | |
|-------------|----------------|
| 1. cadair | 5. cyfrifiadur |
| 2. dosbarth | 6. plentyn |
| 3. taflen | 7. gwers |
| 4. llyfr | 8. desg |

Defnyddiwch
eiriadur i
wirio!

Atebion



dwy gadair



dau gyfrifiadur



dau ddosbarth



dau blentyn




dwy daflen



dwy wers



dau lyfr



dwy ddesg





Arddodiaid

Mae treigladau
meddal ar ôl:

Arddodiad	Enghraifft
am	am dd eg o'r gloch
ar	ar dd iwedd y dydd
at	Ewch at dd rws y pennaeth.
gan	gan b wy?
heb	heb f eddwl
i	Croeso i G ymru.
o	Rydwi'n dod o L anelli.
dan	Mae'r bag dan dd esg yr athro.
dros	dros r yddid collasant eu gwaed (yr anthem)
drwy	Cerddwch drwy dd rws yr ystafell.
wrth	dweud wrth r ywun
hyd	hyd dd iwedd y cwrs

Yn y dosbarth cynradd...



Ymarfer treiglo'n feddal ar ôl o/ i.



Mewn neu yn?

Mewn

- Wrth gyfeirio at enwau amhenodol e.e.
- Bwytais fy nghinio **mewn** bwyty yn y dref.

Yn

- Wrth gyfeirio at enwau penodol e.e.
- Mae Guto yn byw **yn** Ngorllewin Cymru.




Mewn neu yn?






Felly, pa un o'r canlynol sy'n gywir?

1. Wyt ti'n dod adref ein car ni heno?
2. Rydw i'n gweithio ysgol.
3. Bwytais fy nghinio swyddfa heddiw.
4. Bob dydd Sadwrn, rydw i'n gweithio M&S.
5. Wyt ti'n mynd i'r bore coffi ystafell yr athrawon?

Adnoddau defnyddiol



Cardiau drilio o'r Blwch Llythrennedd



Cyfarch!



Rhaid i ni dreiglo pan rydyn ni'n cyfarch pobl neu'n siarad â nh

Gwrandewch yn ofalus, ferched!

Bore da, blant.

Cerddwch yn y coridorau, fechgyn.

Eisteddwch yn dawel, flwyddyn 9.

Dydyn ni ddim yn treiglo enwau priod cofiwch!

e.e. **Eistedda'n dawel Dafydd!** (nid Ddafydd 😊)

Ansoddeiriau ac enwau



yn + ansoddair / enw = treigladd meddal (ond nid ll/rh)	yn + berfenw = dim treigladd
yn b wysig	yn cysgu
yn d awel	yn bwyta
yn g yflym	yn tacluso
yn ll wyddiannus	yn darllen
Mae Huw yn f achgen da	yn prynu
Mae Mr Rhys yn b ennaeth effeithiol	yn meddwl

Byddwch yn ofalus gydag 'yn'!



YN = *is (predicative)* : SUT?/ BETH? + **Treigl**ad meddal e.e.

Rydw i'n bump oed.

Mae e'n/o'n ddrwg.

Mae hi'n gyffrous.

YN = *in (preposition)*: BLE? + **Treigl**ad trwynol e.e.

Rydw i'n byw yng Nghaerdydd.

Rydw i'n byw ym Mhenarth.

Rydw i'n dysgu ym mlwyddyn 2.



Canu a threiglo



- Edrychwch ar eiriau'r caneuon poblogaidd – ble mae'r treigladau?
- Ydych chi'n gallu dweud pam eu bod nhw wedi treiglo?

Un bys, dau
fys, tri bys yn
dawnsio..

Mi welais Jac y Do
Yn eistedd ar ben to
Het wen ar ei ben a
dwy goes bren...

Roedd Ffrans o
wlad Awstria yn
iodlan ar fynydd
mawr...

Pwy sy'n dwad dros y
bryn yn ddistaw
ddistaw bach? Ei farf
yn llaes a'i wallt yn
wvn...

Dwy law yn
erfyn sydd yn
y darlun...

Rho dy
ddwylo ar dy
ben ar dy
ben...



Canu a threiglo



- Atebion:

Un bys, dau
fys, tri bys yn
dawnsio..

Mi welais Jac y Do
Yn eistedd ar ben to
Het wen ar ei ben a
dwy goes bren...

Roedd Ffrans o
wlad Awstria yn
iodlan ar fynydd
mawr...

Pwy sy'n dwad dros y
bryn yn ddistaw
ddistaw bach? Ei farf
yn llaes a'i wallt yn
wyn...

Dwy law yn
erfyn sydd yn
y darlun...

Rho dy
ddwylo ar dy
ben ar dy
ben...

Y tabl treiglo

Llythyren cyn treiglo	Treigladd meddal	Treigladd trwynol	Treigladd blaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	-	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		



Y treigladd trwynol

p	t	c	b	d	g
					
mh	nh	ngh	m	n	ng

Beth sy'n achosi'r treigladau trwynol?

Rheol 1:

Mae'r treigladau trwynol yn digwydd...

...ar ôl y rhagenw 'fy'


e.e. fy mhen, fy nhrwyn, fy nghew

Gall fod yn ferf neu'n enw yn dilyn 'fy', e.e.

fy nhrosoglwyddo
(trosoglwyddo)

fy nghanmol (canmol)

Ymarfer defnyddio'r treigladd trwynol ar ôl y rhagenw 'fy.'



Tasg: Rhowch y rhagenw 'fy' o flaen yr enwau canlynol:

cadair

garddwrn

dad

bag


pêl

brawd

gwaith
cwrs

telyn

Atebion:



cadair	fy <u>ng</u> h adair
garddwrn	fy <u>ng</u> arddwrn
dad	fy <u>nh</u> ad
bag	fy <u>m</u> ag
pêl	fy <u>mh</u> êl
brawd	fy <u>m</u> rawd
gwaith cwrs	fy <u>ng</u> waith cwrs
telyn	fy <u>nh</u> elyn

Sylwch dydy'r
ail air ddim yn
treiglo.

Beth sy'n achosi'r treigladau trwynol?

Rheol 2:

Mae'r treigladau trwynol yn digwydd...

....ar ôl yr arddodiad '**yn**' pan fydd yn golygu '*in*'.


e.e. yng Nghaerdydd, ym Mhenarth, yn Nhonyrefail, yn Ne Cymru

Cofiwch: nid oes rhaid i hyn fod yn enw lle, gall fod yn sefyllfa arall: e.e.

- yng ngwersi Mrs Jones
- ym meddwl hon
- yng nghefn y dosbarth

Wnaethoch chi sylwi beth sy'n digwydd i'r **yn**?

Rhowch yr arddodiad 'yn' o flaen y geiriau canlynol:



Cofiwch newid yr 'yn' os oes angen!

Bangor
Gorseinon
Pontypridd
dosbarth Mr Parry
canol y cae
blaen y dosbarth
gardd yr ysgol
cornel y neuadd

Atebion
ym <u>M</u> angor
yng <u>Ng</u> orseinon
ym <u>Mh</u> ontypridd
yn <u>n</u> osbarth Mr Parry
yng <u>ngh</u> anol y cae
ym <u>m</u> laen y dosbarth
yng <u>ng</u> ardd yr ysgol
yng <u>ngh</u> ornel y neuadd

Beth sy'n achosi'r treigladrwynol?

Rheol 3:

Mae'r enwau 'diwrnod, blwydd, blynedd' yn **treiglo'n drwynol...**

.... ar ôl pum, saith, wyth, naw, deng, deuddeng, pymtheng, deunaw, ugain, can. e.e.

pum niwrnod

deng mlwydd (oed)

naw mlynedd

Y treigladau hanes

p	t	c
		
ph	th	ch

Treigladd Ilaes: Rheol 1

Daw treigladd Ilaes ar ôl y rhagenw ei, 'i, 'w sy'n cyfeirio at feddiant benywaidd (*her*). Cofiwch does dim ots beth ydy cenedl yr enw sy'n dilyn y rhagenw, bydd angen treiglo'r enw yn Ilaes e.e.

ei chi hi.

ei chath hi.

gyda'i theulu hi.

Mae hi wedi gwneud dolor i'w phen.

Treigladd Ilaes: Rheol 2

Daw treigladd Ilaes ar ôl y cysyllteiriau:
'a' sy'n golygu 'and' a 'na' sy'n golygu 'than' e.e.



Mae gen i bapur a
phensil.

Mae'n well gen i Addysg
Gorfforol na Chelf.

Treigladd Ilaes: Rheol 3

Daw treigladd Ilaes ar ôl yr arddodiaid:
'â' sy'n golygu 'with', 'tua' a 'gyda' e.e.



Byddwn ni'n
ymweld â
chastell.



Roedd tua **ph**ymtheg
yn yr ymarfer côr
heddiw.



Gweithiwch gyda
phartner i wneud yr
arbrawf.

Treigladd Ilaes: Rheol 4

Daw treigladd Ilaes ar ôl y rhifolion ‘tri’ a ‘chwe’ e.e.



Tri chwestiwn.



Chwe phensil.


Treigladau Ilaes



Darllenwch y brawddegau canlynol a'u cywiro:

1. Byddwn ni'n gwneud symiau adio a tynnu heddiw.
2. Dylet ti fwyta ffrwythau yn hytrach na creision.
3. Roedd y gêm wedi gorffen tua pum munud i bedwar.
4. Mae ei canlyniadau hi yn arbennig o dda.
5. Roedd tua cant o bobl yn y ffair Nadolig.
6. Bydd angen siswrn, glud a cerdyn arnoch chi ar gyfer y wers gelf heddiw.
7. O na! mae ei pensil hi wedi torri!
8. Rydw i'n mwynhau rygbi yn fwy yn na pêl-droed.

Adolygu'r treigladau gan ddefnyddio rhagenwau.



Driliwch y patrymau gan daflu pêl o un i'r llall:



fy + treigladau trwynol

dy + treigladau meddal

ei (g) + treigladau meddal

ei (b) + treigladau llaes

fy **mh**apur


dy **b**apur

ei **b**apur

ei **ph**apur

papur

Adolygu'r treigladau gan ddefnyddio rhagenwau.



Driliwch y patrymau gan daflu pêl o un i'r llall:

Y Blwch
Llythrennedd

coffi

fy + treigladau trwynol

dy + treigladau meddal

ei (g) + treigladau meddal

ei (b) + treigladau llaes


fy ngh offi

dy g offi





ei g offi

ei ch offi

Adnoddau defnyddiol




Cardiau drilio o'r Blwch Llythrennedd



Munud i feddwl ...


Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Grŵp o
dri



Gwaith
pâr



Tasg
ysgrifennu



Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)



Help llaw



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

diolch!



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru